Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mehefin 2018



Julie James
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr ymysg y grwpiau sydd fwyaf ar y cyrion yn ein cymdeithas. Rydym yn gwybod bod y grwpiau hyn yn aml yn profi gwahaniaethu, anghydraddoldeb a diffyg cyfleoedd. Rydym eisiau sicrhau y caiff aelodau'r cymunedau hyn eu cynorthwyo i gyflawni eu potensial a chyfrannu'n llawn at gymdeithas yng Nghymru.

Rydym yn gwybod hefyd bod y cymunedau hyn yn llawn o unigolion sydd â phrofiad a sgiliau sy'n ddefnyddiol i Gymru ac y bydd eu cynnwys yn gwella'n cymdeithas yn gyffredinol. Mewn rhai rhannau o Gymru Sipsiwn Romani neu Deithwyr Gwyddelig yw'r grŵp mwyaf o ran lleiafrifoedd ethnig. Yn groes i rai canfyddiadau, maent fel arfer wedi integreiddio'n dda i fywyd lleol, er eu bod yn aml yn parhau i brofi anghydraddoldeb mewn rhannau pwysig o'u bywyd. Mewn ardaloedd eraill, mae ymfudo diweddar o Aelod Wladwriaethau eraill yr Undeb Ewropeaidd wedi arwain at gynnydd yn y gymuned Roma. Mae croeso iddynt yng Nghymru a'n her ni yw sicrhau ein bod yn llwyddo i gyflawni cydlyniant cymunedol a chydraddoldeb cyfle i bawb.

Rwy'n falch o'r cynnydd a wnaed yng Nghymru ers cyhoeddi strategaeth gyntaf y DU i wella canlyniadau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr – *Teithio at Ddyfodol Gwell* – sy'n parhau i fod yr unig strategaeth benodol yn y DU sy'n ceisio gwella canlyniadau ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Fodd bynnag, mae ffordd bell iawn i fynd o hyd i sicrhau y gall pobl o'r cymunedau hyn gael mynediad at wasanaethau ar sail gyfartal ag unrhyw un arall, heb wynebu gwahaniaethu. Mae'r cynllun hwn yn ceisio cynnal ein momentwm tuag at herio anghydraddoldeb lle bynnag y deuwn ar ei draws.

Mae'r cynllun *Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr* yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion datganoledig y gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu arnynt. Mae'r cynllun yn amlinellu ehangder y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau lleihau'r anghydraddoldebau a wynebir gan y cymunedau hyn, cynyddu mynediad at gyfleoedd, a gwella'r berthynas rhwng y cymunedau hyn a chymdeithas yn ehangach.

Mae'n bwysig nodi'n glir fod y cynllun hwn yn ymwneud â sawl cymuned gyda diwylliannau unigryw a heriau gwahanol. Mae hyn yn cynnwys Sipsiwn Romani, Teithwyr Gwyddelig a Theithwyr Newydd, ymysg eraill. Mae'r cynllun yn ceisio egluro'n glir lle y mae camau gweithredu penodol yn ymwneud â grwpiau penodol yn unig. Fodd bynnag, mae'r holl gymunedau hyn wedi'u huno gan hanes o wahaniaethu a throseddau casineb a wynebwyd ganddynt, yr anghydraddoldeb a brofwyd, a'r angen am gyngor ac eiriolaeth. Rydym yn gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhwng y grwpiau hyn ac eisiau hyrwyddo'u hamrywiaeth.

Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o gamau gweithredu ar draws y Llywodraeth ond byddwn yn blaenoriaethu'n arbennig faterion allweddol y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau ein bod yn gwneud y canlynol:

- parhau i ganolbwyntio ar sicrhau fod digon o safleoedd preswyl a thramwy diwylliannol-briodol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu creu yng Nghymru
- herio canlyniadau greddfol o ran iechyd ac addysg sy'n atal y cymunedau hyn rhag cyflawni eu potensial
- cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gael mynediad i'r farchnad lafur

- darparu cyngor ac eiriolaeth i Sipsiwn, Roma a Theithwyr sy'n dioddef gwahaniaethu neu droseddau casineb
- gwella rhannu gwybodaeth, gan gynnwys ynghylch hawliau
- meithrin perthynas dda rhwng cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r gymdeithas ehangach.

Ers cyhoeddi *Teithio at Ddyfodol Gwell* yn 2011, rydym wedi gyrru ymlaen gan roi mwy o ffocws ar ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr. Mae hyn yn adlewyrchu dealltwriaeth fod llawer o broblemau eraill a brofir gan gymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn codi o ddiffyg mynediad at lety priodol, neu'n cael eu gwaethygu gan hynny. Rydym wedi deddfu i roi sicrwydd deiliadaeth i breswylwyr safleoedd presennol ac i sicrhau bod awdurdodau lleol yn datblygu safleoedd lle bo angen. Mae mwy i'w wneud, o ran creu safleoedd ychwanegol newydd a sicrhau bod pob safle presennol yn gwbl addas i'r pwrpas. Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'r polisi hwn yn y blynyddoedd i ddod.

Mae angen i ni sicrhau hefyd ein bod yn ymatebol i newidiadau sylweddol a fydd yn effeithio ar y cymunedau hyn, fel Brexit ac agenda Diwygio Lles Llywodraeth y DU. Er ei bod yn amhosibl bod yn benodol am effaith lawn y materion hyn adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, byddwn yn monitro'r effeithiau tebygol ac yn ceisio'u datrys lle bo'n bosibl gyda phwerau Llywodraeth Cymru.

Hoffwn ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn enwedig aelodau'r gymuned eu hunain a soniodd wrthym am yr heriau y maent yn eu hwynebu, yn ogystal â sefydliadau cefnogi cymunedau, awdurdodau cyhoeddus a chyrff ac unigolion eraill.

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35073 ISBN digidol 978-1-78937-504-6

Mae Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrth galon gwaith Llywodraeth Cymru a'n gweledigaeth ar gyfer Cymru. Rydym yn credu mewn triniaeth deg i bob unigolyn, yn enwedig y rhai sydd wedi'u gwthio fwyaf i'r cyrion gan systemau cymdeithasol sy'n atal pobl rhag cwrdd â'u hanghenion sylfaenol. Rydym yn gweithio i sicrhau dyfodol tecach a chyflawni mynediad cyfartal at wasanaethau a chyfleoedd er mwyn i hawliau dynol a chefnogaeth ffynnu.

Mae hawliau dynol wedi'u gwreiddio yn holl weithredoedd Llywodraeth Cymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig eraill i sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau rhyngwladol ac yn cydymffurfio â saith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig a lofnodwyd ac a gadarnhawyd gan y DU.

Mae *Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr* yn disodli Fframwaith Llywodraeth Cymru *Teithio at Ddyfodol Gwell*, a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 2011. Gwnaed cynnydd sylweddol ers i'r Fframwaith gael ei gyhoeddi, yn enwedig o ran darparu llety. Rhoddodd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn ddyletswyddau ar awdurdodau lleol i sicrhau bod nifer digonol o safleoedd yn cael eu darparu, tra bydd Grant Cyfalaf Safleoedd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn safleoedd gan Gynghorau. Datblygwyd canllawiau newydd ar Gynllunio a Rheoli Safleoedd yn 2015 i wella safonau ac roedd gweithredu Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn rhoi diogelwch deiliadaeth i'r trigolion. Yn dilyn cyfnod o 17 mlynedd pan na ddarparwyd dim safleoedd gan awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn 60 o leiniau newydd ar safleoedd ers 2014.

Yn ogystal â gwneud gwelliannau i lety, rydym wedi gwneud cynnydd tuag at wella cyrhaeddiad addysgol a gweithio gyda byrddau iechyd i ddeall anghenion iechyd eu cymuned leol. Serch hynny, mae cyfraddau presenoldeb a chyrhaeddiad ym maes addysg yn dal yn is nag ar gyfer grwpiau eraill, mae'r canlyniadau iechyd yn salach, mae diweithdra'n uwch nag yn y boblogaeth gyffredinol ac mae gwahaniaethu'n dal i ddigwydd yn rheolaidd. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau ein bod yn parhau i wneud cynnydd tuag at sicrhau cydraddoldeb i'r grwpiau hyn.

Ers cyhoeddi *Teithio at Ddyfodol Gwell* rydym hefyd wedi ymgynghori ar yr angen am gefnogaeth i'r gymuned Roma mudol. O ganlyniad i'r ymgynghoriad hwnnw, mae angen i ni ystyried anghenion y Roma mudol hefyd wrth ddatblygu ein polisïau. Er bod pob un o'r cymunedau hyn yn wahanol iawn, maent yn aml yn wynebu anawsterau tebyg wrth geisio cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus ac yn profi canlyniadau gwael tebyg. Bydd cynnwys y gymuned Roma yn sicrhau na fydd y gymuned hon yn cael ei gadael ar ôl ond nid yw'n awgrymu y dylid ymgysylltu â phob cymuned yn yr un ffordd. Bydd gwahaniaethau ieithyddol, diwylliannol a daearyddol yn aml yn golygu y bydd y gefnogaeth y mae pob cymuned ei hangen yn amrywio.

Yn y cynllun hwn rydym yn cyfeirio'n aml at 'Sipsiwn, Roma a Theithwyr'. Mae'r termau hyn yn cyfeirio at wahanol grwpiau ethnig neu ddiwylliannol, gan gynnwys Sipsiwn Romani, Teithwyr Gwyddelig, Roma mudol a Theithwyr Newydd, ymysg eraill. Efallai bod rhai camau gweithredu yn y cynllun yn ymwneud â dim ond rhai grwpiau penodol ac rydym wedi ceisio dangos y gwahaniaeth hwn yng ngwiriad y cam gweithredu. Mae Sipsiwn Romani, Teithwyr Gwyddelig a Roma mudol yn grwpiau ethnig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gall grwpiau eraill, fel Teithwyr Newydd, gael eu hystyried yn grwpiau diwylliannol.

Mae pob un o'r camau gweithredu yng nghynllun *Llywodraeth Cymru Galluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr* yn alinio â themâu a blaenoriaethau Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol i Gymru ac yn eu tro, nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r camau gweithredu hefyd â chysylltiad agos â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20.

Mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'n hagwedd tuag at fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a sicrhau Cymru decach. Rydym yn gweithio ochr yn ochr, ac yn gwrando ar leisiau'r rhai sydd wedi byw drwy brofiad o anghydraddoldeb ac anfantais ac yn gwneud pethau gyda nhw yn hytrach nac iddyn nhw neu drostyn nhw. Mae hynny'n golygu cynnwys y bobl a fydd yn cael eu heffeithio gan ein cynlluniau ym mhob cam wrth ddatblygu'r cynlluniau hynny. Dyma enghraifft bwysig o'r ffordd yr ydym yn rhoi'r Ddeddf ar waith.

Mae'r cynllun hwn wedi cael ei ddatblygu drwy **gysylltiad** agos â Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu hunain, sefydliadau sy'n eu cefnogi, ac ystod o gyrff cyhoeddus allweddol y mae eu gwaith yn effeithio'n uniongyrchol ar allu unigolion o'r cymunedau hyn i gyrraedd eu potensial llawn yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n credu'n gryf fod **integreiddio** cymunedau yn broses ddwyffordd. Mae'r dull hwn o weithredu'n allweddol o ran sicrhau ein bod yn cefnogi'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer cymunedau ac unigolion. Rydym eisiau sicrhau bod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu galluogi i gymryd rhan ym mhob agwedd ar gymdeithas yng Nghymru ac mae hyn yn debygol o gynnwys awdurdodau lleol yn addasu eu prosesau i sicrhau eu bod yn cynnwys pawb.

Wrth ddatblygu'r camau gweithredu hyn rydym wedi ceisio atal y problemau mwyaf niweidiol a brofir gan Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys digartrefedd, cyflyrau iechyd meddwl, llety gwael a pherygl o dlodi enbyd. Rydym eisoes wedi gwneud rhywfaint o gynnydd calonogol yn rhai o'r meysydd hyn ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd i wella canlyniadau.

Mae'r cynllun hwn yn ceisio gosod cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru yng nghyswllt y cymunedau hyn tan ddiwedd tymor y Cynulliad hwn. O'r herwydd, mae'n ffurfio rhan bwysig o nod **hirdymor** ar gyfer Cymru decach a mwy cyfartal.

Er bod y cynllun hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gamau ar gyfer Llywodraeth Cymru, bydd cynnwys y cymunedau hyn yn y gymdeithas hefyd yn dibynnu ar gefnogaeth sefydliadau ac unigolion eraill yng Nghymru. Byddwn yn ceisio gweithio ar y cyd gyda sefydliadau perthnasol eraill wrth i ni geisio rhoi'r cynllun hwn ar waith.

Bydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn aml yn profi materion tebyg yng Nghymru ond maent yn dod o lawer o wahanol ddiwylliannau ac yn tarddu o lawer o wledydd. Mae Llywodraeth Cymru'n hyrwyddo **dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** gan sicrhau bod unigolion yn derbyn cymorth i integreiddio, waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau. Dylai hyn atal dulliau cyffredinol 'un maint i bawb' a all olygu gadael rhai cymunedau ar ôl.

Mae enw'r cynllun hwn yn ceisio ymgorffori'r dull o weithio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gydnabod fod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn aml yn meddu ar brofiad neu sgiliau eisoes y gellir eu defnyddio i gefnogi cymdeithas yng Nghymru ond efallai y byddant angen newidiadau bychain i'w galluogi i gymryd rhan yn effeithlon.

Mae bod yn Sipsiwn, Roma neu Deithwyr fel arfer yn rhan bwysig o hunaniaeth rhywun ond mae'n hanfodol bwysig cydnabod mai dim ond un agwedd ar unigolyn yw hynny. Mae rhai unigolion yn debygol o brofi anfanteision niferus, neu groestoriadol o ganlyniad i effaith gyfansawdd gwahaniaethu ar sail hil ac anabledd, rhyw neu rywioldeb (er enghraifft). Mae'n bosibl i unigolyn brofi gwahaniaethu ar sail pob un o'r agweddau hyn ar ei hunaniaeth yr un pryd, gan arwain at rwystrau sylweddol o ran cyflawni eu potensial. Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio cynlluniau fel hyn, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ein Rhaglen Gyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant a mesurau eraill i geisio canfod a rhoi sylw i'r anfantais croestoriadol hwn pan fo'n digwydd.

Mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wynebu heriau sylweddol ar draws y DU ond nid yw llawer o'r dystiolaeth a fyddai'n ein cynorthwyo i sicrhau ein bod yn targedu

cymorth yn y modd gorau, wedi ei chasglu eto. O ganlyniad, mae creu camau gweithredu mesuradwy'n anodd iawn. Felly, byddwn yn ceisio gwella'r gwaith o gasglu data'n ymwneud â'r canlyniadau a brofir gan y cymunedau hyn, gan gynnwys cynyddu hyder aelodau'r gymuned ynghylch y rhesymau paham y gallai adrannau'r Llywodraeth geisio'r data hwn.

Mae'r cynllun hwn yn gam pwysig tuag at greu Cymru sy'n fwy cyfartal a chydlynol. Fodd bynnag, byddwn angen cefnogaeth ac ymgysylltiad rhanddeiliaid allweddol, fel Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol Cymru, sefydliadau sy'n cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr, cymunedau Cymreig ac aelodau'r cymunedau eu hunain i sicrhau bod y cynllun hwn yn arwain at newid cadarnhaol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r partneriaid yma i wireddu hyn.

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 1. Sicrhau bod nifer digonol o leiniau yn cael eu darparu i ddiwallu'r anghenion sydd wedi'u pennu ledled Cymru.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Craffu ar Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau eu bod yn gadarn – parhaus.<br>» Monitro awdurdodau lleol yn flynyddol i wneud yn siŵr bod digon o leiniau'n cael eu darparu.<br>» Sicrhau bod y broses ar gyfer asesu angen o fewn y canllawiau 'Cynnal Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr' yn cael ei gwella'n barhaus. Y canllawiau i'w hadolygu yn 2018-19. | Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amcanion Ffyniant i Bawb (Amc. FfiB.) 6<br><br>Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (Amc. CCS) 1 |
| 2. Darparu arian Grant Cyfalaf Safleoedd digonol i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu creu'r nifer gofynnol o leiniau Sipsiwn a Theithwyr wedi'u hawdurdodi yn eu hardal.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Adolygu anghenion ariannu awdurdodau lleol yn flynyddol ac argaeledd y Grant Cyfalaf Safleoedd – £26.4m ar gael tan 2021.<br>» Ystyried safleoedd Sipsiwn a Theithwyr wrth ddrafftio canllawiau ar gyfer pennu a gwaredu asedau dros ben Llywodraeth Cymru. Canllawiau i'w cyhoeddi ddiwedd 2018. | Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Is-adran Stadau | Amc FfiB. 6<br><br>CCS Amc.1 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 3. Gwella safon safleoedd presennol awdurdodau lleol, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddylunio a Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Parhau i ystyried ceisiadau am adnewyddu safleoedd presennol er mwyn bodloni'r canllawiau Dylunio Safleoedd (parhaus).<br>» Sicrhau bod y canllawiau yn addas i'r diben drwy adolygu'r canllawiau presennol erbyn 2020.<br>» Trefnu o leiaf ddau gyfarfod bob blwyddyn o'r Fforwm Llety Sipsiwn a Theithwyr Cymru Gyfan er mwyn hyrwyddo rhannu arferion da yng nghyswllt dylunio a rheoli safleoedd.<br>» Gweithio gydag awdurdodau lleol ac eraill i sicrhau bod y rhaglen Cefnogi Pobl yn cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gynnal eu llety (parhaus). | Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br>Is-adran Stadau | Amc. FfiB. 6<br>Amc. CCS 7 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
| --- | --- | --- |
| 4. Adolygu ymwybyddiaeth o Dribiwnlysoedd Eiddo Preswyl, a'u hygyrchedd, a chefnogi datrys anghydfodau'n well ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Comisiynu gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Teithio Ymlaen i godi ymwybyddiaeth o system y Tribiwnlys Eiddo Preswyl yn ystod 2018-19.<br>» Adolygu mynediad i Dribiwnlysoedd Eiddo Preswyl – i'w gynnal yn 2018.<br>» Darparu gwasanaeth cyfryngu ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr o ran anghydfodau ar safleoedd gydag Awdurdodau Lleol yn ystod 2018-19. (i'w adolygu yn dilyn y flwyddyn gyntaf).<br>» Hyrwyddo'r gwasanaeth i bob sefydliad cysylltiedig sy'n gweithio gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru. | Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br>Gwasanaeth y Tribiwnlys Eiddo Preswyl | Amc. FfiB. 6<br>Amc. CCS 2 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 5. Monitro effeithiolrwydd y system gynllunio mewn perthynas â gallu darparu safleoedd priodol.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Cyhoeddi Cylchlythyr Cynllunio newydd yn 2018 yng nghyswllt Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn i sicrhau bod gan awdurdodau cynllunio lleol ganllawiau wedi'u diweddaru am ddarparu safleoedd.<br><br>» Parhau i fonitro'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol ac adolygiadau i sicrhau bod darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a llunio polisïau yn cael ei wneud yn unol â chanllawiau a pholisi cynllunio cenedlaethol a gofynion asesiadau awdurdodau lleol o lety sipsiwn a theithwyr.<br><br>Dylai awdurdodau cynllunio lleol:<br><br>» Fonitro safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ddarperir drwy'r broses gynllunio fel rhan o Adroddiad Monitro Blynyddol eu Cynllun Datblygu Lleol. Dylai'r fframwaith monitro fod yn unol â gofynion awdurdodau lleol ar gyfer safleoedd, fel y nodir yn eu Hasesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr. | Llywodraeth Cymru – y Gyfarwyddiaeth Gynllunio<br><br>Awdurdodau Cynllunio Lleol | Amc. FfiB. 11<br><br>Amc. CCS 1 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 6. Bydd Sipsiwn a Theithwyr cymwys sy'n byw ar safleoedd wedi'u hawdurdodi yn gallu cael gafael ar gymorth a chyngor am effeithlonrwydd ynni drwy Lywodraeth Cymru.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Sicrhau y bydd Rheolwyr Cynlluniau sydd dan gontract i ddarparu rhaglen newydd Llywodraeth Cymru Cartrefi Clyd o fis Mai 2018 yn gweithio gyda sefydliadau perthnasol i hyrwyddo cynlluniau Cartrefi Clyd ymysg y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr a darparu adroddiadau am y defnydd o'r cynlluniau hynny.<br>» Ystyried y potensial am brosiect Arbed peilot yn yr hydref (2018) pan wahoddir Awdurdodau Lleol i gyflwyno cynigion am arian Arbed i Reolwr y Cynllun.<br>» Sicrhau bod mesurau effeithlonrwydd adnoddau'n cael eu hystyried yn gymwys am gyllid o dan y Grant Cyfalaf Safleoedd (parhaus). | Llywodraeth Cymru – Is-adran Pobl a'r Amgylchedd<br><br>Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amc. FfiB. 3; 5<br><br>Amc. CCS 7 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 7. Sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael eu cefnogi i ddatblygu rhwydwaith o Safleoedd Tramwy ar draws Cymru i hwyluso ffordd o fyw nomadaidd Sipsiwn a Theithwyr.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Ariannu'r safleoedd tramwy cyntaf yng ngogledd a de Cymru erbyn 2020.<br>» Parhau â'r System Cyfrif Carafanau newydd a sicrhau ei bod yn gwbl weithredol yn ystod 2018, i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer cylchoedd dilynol o Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr i sefydlu lleoliadau i gwblhau'r rhwydwaith o safleoedd tramwy.<br>» Parhau i fonitro'r system i sicrhau bod awdurdodau lleol yn ei rhoi ar waith yn iawn.<br>» Cyhoeddi data a ryddheir bob chwe mis i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi a dealltwriaeth y cyhoedd o wersylloedd. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br>Awdurdodau Lleol | Amc. FfiB. 10; 11<br>CCS Amc.1 |
| 8. Cefnogi ateb cyson, gwaraidd ac effeithiol i wersylla diawdurdod sy'n parchu hawliau Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned ehangach.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Hyrwyddo'r gwaith o fabwysiadu protocolau Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod lleol neu ranbarthol ledled Cymru ac adolygu'r cynnydd tuag at fabwysiadu'r protocolau yn ystod 2018-19.<br>» Adolygu canllawiau Llywodraeth Cymru 'Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod' yn ystod 2018-19 i sicrhau eu bod yn addas i'r diben. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br>Awdurdodau Lleol<br>Heddluoedd | Amc. FfiB. 5; 10<br>Amc. CCS 6 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 9. Hyrwyddo cynhwysiant ariannol i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr er mwyn lleihau neu liniaru effeithiau tlodi a gwella amodau byw y rheini ar incwm isel.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Monitro effaith diwygiadau lles diweddar, gan gynnwys y cap budd-daliadau ac ehangu gwasanaeth 'llawn' Credyd Cynhwysol yn ystod 2018 i ganfod rhwystrau ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br><br>» Yn unol â'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol a'r Cynllun Cyflenwi sy'n hyrwyddo mynediad i bawb, sicrhau bod y cymunedau hyn yn gallu manteisio ar Undebau Credyd, y Gronfa Cymorth Dewisol, cyngor ar ddyledion ac arweiniad ariannol a gwasanaethau eraill yn ystod 2018.<br><br>» Gweithio gyda rheolwyr safleoedd awdurdodau lleol drwy'r Fforwm Llety Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer Cymru gyfan i sicrhau bod gwybodaeth am rwystrau ac atebion yn cael ei rhannu. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Is-adran Cymunedau | Amc. FfiB. 1; 9<br><br>Amc. CCS 2; 7 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 10. Cefnogi goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Ymgymryd ag ymarfer cwmpasu yn ystod 2018-19 i ganfod y prif broblemau a wynebir gan unigolion sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd wedi profi VAWDASV a'r camau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i sicrhau bod unigolion o'r fath yn derbyn cefnogaeth briodol.<br><br>» Datblygu model cynaliadwy i ddarparu cyllid ar gyfer gwasanaethau VAWDASV arbenigol er mwyn sicrhau cefnogaeth ddibynadwy i'r holl ddioddefwyr a goroeswyr, gan gynnwys unigolion sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd y gwaith hwn yn digwydd fel rhan o waith ehangach i ranbartholi cyllid ar gyfer darparu gwasanaeth VAWDASV erbyn 2020.<br><br>» Sicrhau y caiff anghenion unigolion sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu hystyried o fewn fframwaith cyfathrebu cenedlaethol VAWDASV erbyn Mawrth 2019.<br><br>» Annog ymgysylltu â goroeswyr VAWDASV sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy ddatblygu Mecanweithiau Cenedlaethol i Ymgysylltu â Goroeswyr cyn 2020.<br><br>» Cyflwyno hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' VAWDASV i weithwyr proffesiynol rheng flaen ledled Cymru erbyn 2020. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys gwybodaeth am y trafferthion a wynebir gan gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME), gan gynnwys unigolion sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br><br>» Darparu cyngor a chefnogaeth drwy'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, 24 awr, 365 dydd y flwyddyn, sy'n cynnwys cefnogaeth 'Language Line' – parhaus. | Llywodraeth Cymru – Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Rhanddeiliaid VAWDASV | Amc. FfiiB.5;10<br><br>Amcan CCS 4 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 11. Gweithio tuag at atal Sipsiwn Roma a Theithwyr ddod yn ddioddefwyr masnachu pobl a chaethwasiaeth fodern.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Parhau i ddarparu hyfforddiant ledled Cymru gyda'r nod o wella ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio gyda Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br>» Targedu a darparu hyfforddiant penodol i sefydliadau Ymatebwyr Cyntaf yng Nghymru.<br>» Gweithio gyda busnesau ledled Cymru i dynnu sylw at effaith caethwasiaeth yn y gadwyn gyflenwi cyflogaeth. (y cyfan yn gamau gweithredu parhaus). | Llywodraeth Cymru –<br>Is-adran Diogelwch Cymunedol | Amc. FfiB. 5; 10<br>Amc. CCS 4 |
| 12. Hyrwyddo Llywodraeth Cymru fel man i Sipsiwn, Roma a Theithwyr weithio. Mae amcan Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-20 yn gosod nod i'r sefydliad o fod yn batrwm o amrywiaeth a chynhwysiant erbyn 2020.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Gwella'r rhaglen allgymorth a lleoliadau presennol i ehangu apêl Llywodraeth Cymru fel cyflogwr, gan ddangos rhinweddau tegwch, bod yn agored a thryloyw i roi cyfle i gynifer â phosibl o bobl wneud cais.<br>» Sicrhau bod y rhaglen allgymorth yn cynnwys ymgysylltu â sefydliadau sy'n cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau bod y cymunedau hyn yn cael y cyfle i ymgeisio. | Llywodraeth Cymru –<br>Is-adran Adnoddau Dynol –<br>Gwasanaethau Arbenigol | Amc. FfiB. 8<br>Amc. CCS 3; 8 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 13. Cefnogi cyflogadwyedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb a thegwch yn ganolog i gyflawni'r Cynllun Cyflogadwyedd (a gyhoeddwyd ym Mawrth 2018), a fydd yn cynnwys ystyried anghenion pob grŵp gwarchodedig wrth ddatblygu a chyflawni ein rhaglenni i gefnogi mynediad at gyflogaeth (parhaus).<br>» Sicrhau bod cynlluniau cyflogadwyedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn cynnig eu gwasanaeth i Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac yn casglu data i ganfod y rheini sy'n gymwys o blith y gymuned hon (parhaus). | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cyflogadwyedd a Chyllid yr UE | FfiB – Maes Blaenoriaeth – Sgiliau a Chyflogadwyedd<br>Amc. CCS 3; 6; 7 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 14. Gweithio gyda Busnes Cymru i gefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sefydlu eu busnesau eu hunain (parhaus i 2020).<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Darparu gweithdai wyneb-yn-wyneb a llinell gymorth Busnes Cymru i sicrhau bod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael mynediad at gyngor busnes, gwybodaeth a dolenni at gyfleoedd buddsoddi, gan gynnwys drwy ddarparu gwasanaethau cyfieithu (os bydd angen) drwy'r Gronfa Gyfranogi.<br><br>» Ystyried anghenion penodol Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth ddatblygu'r Cynllun newydd Entrepreneuriaeth yn y Gymuned yn 2018.<br><br>» Annog entrepreneuriaid presennol sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr i weithredu fel mentoriaid ar gyfer busnesau newydd gan Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br><br>» Gweithio gyda phartneriaid yn y trydydd sector i sicrhau y caiff gwasanaethau Busnes Cymru eu hyrwyddo'n effeithiol i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br><br>» Sicrhau bod menywod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn benodol, yn cael eu hannog i ystyried cyfleoedd entrepreneuriaeth. | Llywodraeth Cymru<br><br>Busnes Cymru | Amc. FfiB. 1<br><br>Amc. CCS 3; 7 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 1. Sicrhau y caiff Asesiadau Anghenion Iechyd Sipsiwn a Theithwyr eu cynnal ac y caiff y canlyniadau eu bwydo i'r gwaith o gynllunio gwasanaeth.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Monitro bod Byrddau Iechyd Lleol yn cwblhau Asesiadau Anghenion Iechyd a bod y canlyniadau'n cael eu bwydo i'r gwaith o gynllunio gwasanaeth erbyn Mawrth 2019. | Llywodraeth Cymru – yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed<br>Yr Is-adran Iechyd y Cyhoedd<br>Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau | FfiB. 5<br>Amc. CCS 1 |
| 2. Ymarferwyr Iechyd i gael eu hyfforddi ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb i sicrhau bod y rhwystrau i ofal iechyd ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu lleihau.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Monitro nifer yr ymarferwyr iechyd sydd wedi cael hyfforddiant yn flynyddol o 2018/19. | Llywodraeth Cymru – yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed<br>Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau<br>Canolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG | Amc. FfiB. 4<br>Amc. CCS 1; 6 |
| 3. Datblygu system i sicrhau bod adroddiadau'n cael eu darparu'n ganolog ar ganlyniadau iechyd Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn deall anghydraddoldebau'n well a thargedu cefnogaeth.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Gweithio gyda Byrddau Iechyd Lleol a Gwasanaeth Gwybodeg y GIG i wreiddio categorïau ethnigrwydd Cyfrifiad 2011 (Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig) i systemau gweithredol lleol o 2018/19. | Llywodraeth Cymru – yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed<br>Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru<br>Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau | Amc. FfiB. 4<br>Amc. CCS 1 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 4. Sefydlu peirianweithiau i hyrwyddo'r gwaith o rannu arferion da er mwyn gwella canlyniadau iechyd cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Gweithio gyda Byrddau Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau mynediad at amrywiaeth o ddeunyddiau hybu iechyd sydd ar gael yn hwylus erbyn mis Rhagfyr 2018. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Iechyd y Cyhoedd | Amc. FfiB. 4<br>Amc. CCS 1 |
| 5. Sicrhau bod cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn manteisio ar y Rhaglen Plant Iach Cymru i greu'r amodau lle bydd pob plentyn yn cael y cychwyn gorau posibl mewn bywyd.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Gweithio gyda Byrddau Iechyd i sicrhau eu bod yn rhoi Rhaglen Plant Iach Cymru (HCWP) ar waith yn llawn.<br>» Monitro lefel a'r nifer sy'n manteisio ar y rhaglen ar lefel poblogaeth.<br>» Dadansoddi data chwarterol ar weithrediad y rhaglen ar lefel Bwrdd Iechyd Lleol a monitro drwy grŵp rhanddeiliaid. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cyflyrau Iechyd Difrifol<br>Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau | Amc. FfiB. 5<br>FfiB – y Blynyddoedd Cynnar<br>Amc. CCS 1; 2; 6 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 6. Cefnogi Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Gweithio gyda phrosiect Cynnwys Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Chwaraeon Cymru i sicrhau cyfranogaeth Sipsiwn, Roma a Theithwyr (parhaus). | Llywodraeth Cymru –<br><br>ESNR Twristiaeth, Treftadaeth a Chwaraeon a Chwaraeon Cymru | Amc. FfiB. 5<br><br>Amc. CCS 1; 6 |
| 7. Sicrhau bod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu hystyried wrth ddatblygu strategaeth ar unigrwydd a theimlo'n ynysig.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Ystyried anghenion penodol Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau eu bod yn gallu cael budd o'r strategaeth newydd ar unigrwydd a theimlo'n ynysig. | Llywodraeth Cymru –<br><br>HSS Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio | Amc. FfiB. 5<br><br>Amc. CCS 1 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 1. Gwella hyder disgyblion a rhieni Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ddatgan eu hethnigrwydd yn yr ysgol i sicrhau bod eu perfformiad yn cael ei ddeall yn well a'r dysgu'n cael ei gefnogi.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Rhoi'r adolygiad o gategorïau ethnigrwydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr ar waith dan y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ystod 2018. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cymorth i Ddysgwyr | Amc. FfiB. 10<br><br>Amc. CCS 3 |
| 2. Sicrhau bod diwylliant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael ei adlewyrchu yn amgylchedd yr ysgol.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Annog ysgolion Cymru i ddefnyddio'r adnodd cwricwlaidd 'Teithio Gyda'n Gilydd: Arfer Da mewn Addysg Prosiect Ymchwil Cymheiriaid'; y pecyn 'Hyrwyddo Cydraddoldeb' ac adnoddau eraill gan Lywodraeth Cymru ac adnoddau a lunnir yn allanol yn ysgolion Cymru drwy ail-hysbysebu'r adnoddau ar ddechau pob blwyddyn ystod ym mis Medi, gan ddechrau ym Medi 2018. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cymorth i Ddysgwyr | Amc. FfiB. 7<br><br>Amc. CCS 3 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 3. Estyn i gynnal adolygiad thematig yn 2018-19 a fydd yn canolbwyntio ar y cynnydd ers ei adroddiad yn 2011 ar addysg Sipsiwn a Theithwyr ac ystyried effaith y gefnogaeth a'r gwasanaethau addysg presennol ar ganlyniadau addysg y dysgwyr hyn.<br>» Mae'r adroddiad terfynol i'w gyhoeddi cyn diwedd 2018. | Estyn | Amc. FfiB. 7<br>Amc. CCS 3 |
| 4. Cefnogi a herio Awdurdodau Lleol a chonsortia addysg rhanbarthol ar y camau y maent yn eu cymryd yn uniongyrchol, a thrwy gefnogaeth a roddir i ysgolion, i wella canlyniadau addysg pob dysgwr.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Defnyddio ein mecanweithiau presennol a'n hymgysylltiad â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) a chonsortia addysg rhanbarthol.<br>» Sicrhau bod rhannu 'Arferion Da' yn cael ei gynnwys fel eitem drafod sefydlog ar agenda'r Fforwm Addysg Sipsiwn a Theithwyr sy'n cael ei gynnal bob tymor dan arweiniad awdurdodau lleol.<br>» Gweithio gydag Awdurdodau Lleol i gefnogi datblygiad parhaus model cyllido cynaliadwy, o Ebrill 2020. | Llywodraeth Cymru – Addysg Cymorth i Ddysgwyr/ Cynllunio Busnes a Llywodraethu<br>Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru<br>(ADEW) | Amc. FfiB. 7<br>Amc. CCS 3 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 5. Mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion yn erbyn plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Cyhoeddi canllawiau gwrth-fwlio *Parchu Eraill* yn 2019, sy'n cefnogi anghenion plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br>» Gweithio gydag ymarferwyr addysg, gwasanaethau perthnasol, plant a phobl ifanc i sicrhau bod y canllawiau diwygiedig yn cael yr effaith fwyaf bosibl. | Llywodraeth Cymru –<br>Cymorth i Ddysgwyr | Amc. FfiB. 5<br>Amc. CCS 4 |
| 6. Archwilio ffyrdd o godi ymwybyddiaeth ymysg teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr am yr hawl i addysg gynnar dan y Cyfnod Sylfaen.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Ystyried anghenion cyfathrebu rhieni sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr fel rhan o ymgyrch rhieni ynghylch meithrinfa'r Cyfnod Sylfaen (FPN) erbyn mis Mawrth 2019.<br>» Ystyried sut y gellir gwella'r cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol, darparwyr FPN a rhieni Sipsiwn, Roma a Theithwyr – parhaus tan 2020. | Llywodraeth Cymru –<br>Is-adran y Cwricwlwm<br>Awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol | Amc. FfiB. 7<br>Amc. CCS 7<br>FfiB – Maes Blaenoriaeth – Y Blynyddoedd Cynnar |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 7. Hybu Sgiliau Hanfodol ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr i wella rhagolygon gwaith, cydlyniant cymdeithasol a lefelau cyrhaeddiad ysgol plant (Sgiliau Hanfodol, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill a Llythrennedd Digidol yw'r prif flaenoriaethau o hyd ar gyfer y ddarpariaeth addysg oedolion yng Nghymru).<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Gweithio gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn ystod 2018-19 i ddatblygu canllawiau arfer da ar gyfer ysgolion a darparwyr dysgu oedolion ynghylch sut i ymgysylltu â Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn gwella'u mynediad at gyfleoedd dysgu ac arddangos arfer gorau i gynorthwyo eraill i ddatblygu prosesau i gefnogi ymgysylltu â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br><br>» Parhau i hyrwyddo straeon newyddion da am ddysgwyr llwyddiannus o blith cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy adeiladu ar lwyddiant cyn enillwyr Gwobrau Ysbrydoli ym maes Dysgu Oedolion i helpu i ysbrydoli eraill i fanteisio ar gyfleoedd dysgu.<br><br>» Parhau i gefnogi darparu dysgu oedolion yn unol â pholisi diwygiedig Dysgu Oedolion yng Nghymru a gyhoeddwyd yn 2017.<br><br>» Gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru yn ystod 2018 i ddarparu cymorth i sefydliadau sy'n gallu helpu pobl sydd wedi'u heithrio'n ddigidol i wella'u bywydau drwy ddatblygu'u sgiliau digidol sylfaenol. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Prentisiaethau ac AB<br><br>Is-adran Cymunedau | Amc. FfiB. 8; 9<br><br>Amc. CCS 3<br><br>FfiB – Maes Blaenoriaeth – Sgiliau a Chyflogadwyedd |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 8. Sicrhau yr ymgynghorir â Sipsiwn, Roma a Theithwyr fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a gwireddu'r cwricwlwm newydd.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Gweithio gyda phartneriaid i ymgysylltu a'r cymunedau hyn i sicrhau bod cyfleoedd i ddiwallu anghenion grwpiau amrywiol, gan gynnwys disgyblion Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn cael eu nodi wrth ddatblygu a gwireddu'r cwricwlwm – (parhaus). | Llywodraeth Cymru – Is-adran y Cwricwlwm, Asesu ac Addysgeg | Amc. FfiB. 7<br>Amc. CCS 1; 6 |
| 9. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfleoedd am brentisiaethau ymysg cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn iddynt gael rhagor o gyfleoedd gwaith a dysgu.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Cydweithio â'r hyrwyddwr cydraddoldeb sy'n cael ei gynnal gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, i wella mynediad at brentisiaethau (swydd wedi'i hymestyn tan 2021).<br>» Datblygu rhagor o ddealltwriaeth ar draws y rhwydwaith darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith o'r rhwystrau sy'n wynebu cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy gyfarfodydd Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Hyrwyddwr Cydraddoldeb Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru a chreu cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth.<br>» Codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Prentisiaethau o fewn grwpiau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy ymgysylltu â hyrwyddwyr cymunedol y Cwmni Diwylliant a Chelfyddydau Romani, y gwasanaeth Teithio Ymlaen a mudiadau cymorth eraill yn y gymuned. | Llywodraeth Cymru – Yr Isadran Addysg Bellach a Phrentisiaethau | Amc. FfiB. 1; 9<br>Amc. CCS 3 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 10. Sicrhau bod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael gwybod am y gwasanaethau cymorth sy'n cael eu darparu drwy'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, ac yn gallu cael mynediad atynt (rhaglen barhaus).<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Gweithio gydag awdurdodau lleol sy'n darparu Teuluoedd yn Gyntaf i dynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â'r teuluoedd hyn i asesu eu hangen am gymorth mewn ffyrdd sy'n briodol o ran diwylliant, fel y nodir yng nghanllawiau diwygiedig Teuluoedd yn Gyntaf. Bydd Awdurdodau Lleol yn adrodd ar ddarparu'r rhaglen yn flynyddol. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Plant a Theuluoedd | Amc. FfiB. 7<br>Amc. CCS 7<br>FfiB – Maes Blaenoriaeth – Y Blynyddoedd Cynnar |
| 11. Cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gyfrannu at raglenni Dechrau'n Deg er mwyn rhoi'r cychwyn gorau i blant (rhaglen barhaus).<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Gweithio gydag awdurdodau lleol sy'n darparu Dechrau'n Deg i dynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu â'r teuluoedd hyn i asesu eu hangen am gymorth mewn ffyrdd sy'n briodol o ran diwylliant. Bydd Awdurdodau Lleol yn adrodd ar ddarparu'r rhaglen yn flynyddol.<br>» Sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwybod y gellir defnyddio arian Allgymorth Dechrau'n Deg i dargedu plant o gymunedau buddiant penodol yn eu hawdurdod lleol, hyd yn oed os ydynt y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae hyn yn cynnwys cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Llywodraeth Cymru –<br>Is-adran Plant a Theuluoedd | Amc. FfiB. 7<br>Amc. CCS 7<br>FfiB – Maes Blaenoriaeth – Y Blynyddoedd Cynnar |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 1. Bydd Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol yn cael eu hariannu i ddarparu cymorth cydlyniant mewn perthynas â safleoedd sydd yn yr arfaeth neu sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Parhau i ariannu gwaith y Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol.<br>» Monitro tensiwn cymunedol wrth i ddatblygiadau gael eu cynnig mewn perthynas â safleoedd.<br>» Ysgrifennu at Aelodau Etholedig lleol yn flynyddol i'w hatgoffa am ddyletswyddau Awdurdodau Lleol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Cydraddoldeb 2010.<br>» Rhoi cymorth i wella ymwybyddiaeth o'r cymunedau hyn drwy ddarparu gwybodaeth a hyfforddiant i Aelodau Etholedig lleol, lle y bo'n briodol. | Llywodraeth Cymru –<br>Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amc. FfiB. 10<br>Amc. CCS 6 |
| 2. Bydd Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu cefnogi i ddeall a rhoi gwybod am Droseddau Casineb drwy 'Wasanaeth Cymorth Cymru Gyfan ar gyfer Troseddau Casineb' a 'Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Teithio Ymlaen' a ariennir gan Lywodraeth Cymru.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Ariannu Gwasanaeth Cymorth Cymru Gyfan ar gyfer Troseddau Casineb (a redir gan Cymorth i Ddioddefwyr) a Gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Teithio Ymlaen tan fis Mawrth 2020.<br>» Sicrhau y bydd Teithio Ymlaen yn parhau i weithredu fel canolfan adrodd trydydd parti yng nghyswllt Troseddau Casineb.<br>» Ymgysylltu â'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb i roi sylw i faterion sy'n effeithio ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Llywodraeth Cymru –<br>Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amc. FfiB. 10<br>Amc. CCS 4 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 3. Meithrin perthynas dda rhwng Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r gymdeithas ehangach.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Gweithio gyda'r cyfryngau i gael adroddiadau mwy cytbwys am Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br><br>» Sicrhau y bydd y gwasanaeth Teithio Ymlaen yn gweithio gydag aelodau'r cymunedau hyn i hyfforddi aelodau'r cymunedau i fod yn llefarwyr ar y cyfryngau yn ystod 2018.<br><br>» Sicrhau y bydd y gwasanaeth Teithio Ymlaen yn datblygu gweithgareddau a chyfathrebu rhwng cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r gymuned ehangach rhwng 2018 a 2020. | Llywodraeth Cymru –<br><br>Yr Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant<br><br>Teithio Ymlaen | Amc. FfiB. 10<br><br>Amc. CCS 6 |
| 4. Gwella hyder aelodau cymunedau Sipsiwn, Roma, a Theithwyr i ddatgan eu hethnigrwydd ar gasgliadau data swyddogol i sicrhau bod anghenion yn cael eu deall yn iawn ac yn cael y sylw priodol.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Datblygu ymgyrch wybodaeth yn y gymuned yn ystod 2018-19 i helpu aelodau'r gymuned i ddeall pwrpas casglu data swyddogol a phwysigrwydd hynny. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amc. FfiB. 10<br><br>Amc. CCS 1 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 5. Sicrhau bod gwasanaethau cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth hygyrch ac o safon uchel yn cael eu darparu i alluogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr i arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Comisiynu'r gwasanaeth Teithio Ymlaen, drwy raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru, i ddarparu gwasanaeth cyngor ac eiriolaeth i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr rhwng 2017-20.<br>» Hyrwyddo ymwybyddiaeth o hawliau i Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys gwybodaeth am Hawliau Dynol, Hawliau Plant a Ffyniant i Bawb: Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd gwybodaeth am hawliau yn cael ei chyflwyno i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy'r gwasanaeth Teithio Ymlaen rhwng 2017 a 2020. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amc. FfiB. 10<br>Amc. CCS 1; 2; 6 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 6. Annog y gwaith o ddatblygu grwpiau cyfeirio ar gyfer y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau bod anghenion, hawliau a chyfraniadau'r cymunedau hyn wrth galon y gwaith o gynllunio a chyflwyno polisïau a gwasanaethau.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Comisiynu gwasanaeth Cyngor ac Eiriolaeth Teithio Ymlaen i sefydlu'r grwpiau hyn yn ystod 2018.<br><br>» Ymrwymo i ymgynghori â'r grŵp/grwpiau bryd bynnag y bo'n bosibl ar gynigion polisi y bydd disgwyl iddynt effeithio'n uniongyrchol ar y cymunedau hyn – parhaus.<br><br>» Ymchwilio i effeithiolrwydd eiriolwyr cymheiriaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr i helpu i wella'r gwaith o rannu gwybodaeth rhwng cymunedau. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amc. FfiB. 10<br><br>Amc. CCS 1; 2; 6 |
| 7. Archwilio ffyrdd o wella'r berthynas rhwng adrannau gwasanaethau cymdeithasol a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau bod anghenion a hawliau'r cymunedau hyn yn cael eu deall.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Ystyried ffyrdd o wella'r berthynas hon drwy drafod â phartneriaid yn y gwasanaethau cymdeithasol ac ymgynghori â Grŵp Cyfeirio'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn ystod 2018-19. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Galluogi Pobl<br><br>CLILC<br><br>Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru gyfan | Amc. FfiB. 5<br><br>Amc. CCS 1; 4; 6<br><br>FfiB – Maes Blaenoriaeth – Gofal Cymdeithasol |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 8. Cefnogi'r gwaith o recriwtio cronfa ehangach o ofalwyr maeth o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr i sicrhau bod plant bregus o'r cymunedau hyn yn gallu cynnal eu ffordd ddiwylliannol o fyw.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Gweithio gyda Grŵp Llywio Strategol y fframwaith Maethu Cenedlaethol i ystyried ffyrdd o ddatblygu cronfa o ofalwyr maeth o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr – yn ystod 2018-19. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Galluogi Pobl<br>Grŵp Llywio Strategol y Fframwaith Maethu Cenedlaethol<br>Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru gyfan | Amc. FfiB. 7; 10<br>Amc. CCS 1; 5; 6 |
| 9. Ymdrechu i ddarparu mynediad cyfartal at wasanaethau band eang ledled Cymru.<br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br>» Asesu argaeledd band eang ym mhob safle Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru gan chwilio am atebion i gysylltu'r safleoedd hynny nad oes ganddynt fynediad at fand eang cyflym a dibynadwy ar hyn o bryd, yn ystod 2018-19. | Llywodraeth Cymru a gwasanaethau band eang | Amc. FfiB.11<br>Amc. CCS 2 |

| Camau Gweithredu | Sefydliadau | Cysylltiad ag Amcanion |
|---|---|---|
| 10. Sicrhau bod gan asiantaethau cyfiawnder troseddol fwy o ymwybyddiaeth o ddiwylliant ac anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Ymgysylltu ag aelodau'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliadau cyfiawnder troseddol ledled Cymru yn ystod 2018-19 i ganfod unrhyw broblemau diwylliannol a wynebir yn y lleoliadau hyn ac â rhanddeiliaid cysylltiedig eraill.<br><br>» Ymgysylltu â rhanddeiliaid y mae eu gwaith yn effeithio ar y system cyfiawnder troseddol i bennu ymyriadau addas ac atebion posibl i liniaru ar broblemau sy'n cael eu pennu.<br><br>» Sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'r Gymuned Sipsiwn a Roma yn chwe maes blaenoriaeth y Fframwaith i gefnogi newid cadarnhaol ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru (am gyfnod y Fframwaith hyd at 2022). | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amc. FfiB. 10<br><br>Amc. CCS 1; 6 |
| 11. Sicrhau y caiff dinasyddion y DU, gan gynnwys Roma a Theithwyr a aned yn Iwerddon, gymorth i ddeall eu hawliau a'u rhwymedigaethau o ran trefniadau Llywodraeth Prydain i adael yr UE.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn:<br><br>» Monitro a cheisio dylanwadu ar drefniadau Llywodraeth y DU i hyrwyddo'r system 'Statws Preswylydd Sefydlog' a chefnogi unigolion sydd fwy ar y cyrion i ymgeisio yn ystod y cyfnod Trosglwyddo (diwedd 2018– 2021).<br><br>» Archwilio ffyrdd o sicrhau y gall gwybodaeth am y broses gael ei dosbarthu i'r cymunedau hyn. | Llywodraeth Cymru – Is-adran Cydraddoldeb a Ffyniant | Amc. FfiB. 10<br><br>Amc. CCS 1; 2; 6 |